

PERFORMANCE SCRUTINY COMMITTEE

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd yn Ystafell Gynadledda 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, ddydd Mawrth, 9 Hydref am 10.00am.

YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr Ellie Chard, Rachel Flynn, Martyn Holland, Hugh Irving (Is-Gadeirydd), Geraint Lloyd-Williams a Bob Murray.

HEFYD YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr Meirick Lloyd Davies ac Emrys Wynne, Prif Weithredwr (JG), Pennaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata (LG), Rheolwr Gwella Gwasanaeth (FA), Swyddog Cynllunio a Pherfformiad Strategol (EH), Cydlynnydd Craffu (RhE) a Swyddog Gwasanaeth Democraataidd (KE).

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan aelodau'r Pwyllgor y Cyngorwyr Anne Davies, Huw Jones (Cadeirydd), Arwel Roberts a David Williams.

Y Cyngorydd Richard Mainon, Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Seilwaith Cymunedol ar gyfer eitem busnes 6.

Yn absenoldeb y Cadeirydd, cadeiriodd yr Is-gadeirydd, y Cyngorydd Hugh Irving y cyfarfod hwn.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o gysylltiad.

3 MATERION BRYN FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw fater bryn.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Mynegodd y Cyngorydd Martyn Holland ei siomedigaeth fod ei sylwadau o dan eitem Busnes 5 'Datblygu Strategaeth Cynnal Priffyrdd' ar y diffyg cyllid i gynnal y rhwydwaith ffyrdd gwledig heb eu cynnwys.

Gofynnodd y Cyngorydd Holland y dylid nodi fod Cyngor Sir Y Fflint wedi cyhoeddi yn ddiweddar ei fod angen buddsoddiad o oddeutu £40m yn ei rhwydwaith priffyrdd i'w cynnal nhw i safon foddhaol. Yn yr un modd mae Sir Ddinbych angen buddsoddiad o oddeutu £11m ar gyfer ei strwythurau priffyrdd a phontydd er mwyn eu cadw nhw mewn safon foddhaol, roedd hynny ar ben y buddsoddiad sydd ei angen yn ffyrdd y sir er mwyn eu cynnal nhw.

Tra bod cyllid Llywodraeth Cymru wastad yn cael ei groesawu roedd y Grant Adnewyddu Ffyrdd a dderbyniwyd yn ddiweddar yn dod i £1.2m o ganlyniad i natur gostus y prosiectau cynnal a chadw priffyrdd ac wedi cael ei wario i gyd er mwyn gwella nifer cyfyngedig o ffyrdd yn y sir.

Roedd gan Sir Ddinbych rwydwaith o tua 14,000 milltiroedd, gyda oddeutu dim ond 3,000 wedi'u dosbarthu fel ffyrdd A a B ac o ganlyniad wedi atynnu cyllid cynnal a chadw LIC.

Mae'r rhan fwyaf o ffyrdd y sir unai yn ffyrdd C neu'n annosbarthedig, ac felly ddim yn ffurfio rhan o'r data a defnyddir i atynnu cyllid LIC i fuddsoddi ynddyn nhw, mae hynny yn ei dro yn anfantais i fusnesau, preswylwyr ac ardaloedd gwledig y sir.

Roedd gwledydd Ewropeaidd eraill wedi defnyddio cyfran o'u harian Amcan 1 i wella'r isadeiledd ffyrdd ond am ryw reswm nid oedd Cymru wedi mabwysiadu'r dull hwn.

Penderfynwyd yn amodol ar yr uchod, y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2018 fel cofnod cywir.

5 COFRESTR RISG GORFFORAETHOL

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Gyllid, Perfformiad ac Asedau adroddiad y Swyddog Cynllunio a Pherfformiad (wedi'i ddsbarthu'n flaenorol) a gyflwynodd copi i'r Pwyllgor o Gofrestr Risg Corfforaethol y Cyngor a naratif ar ddileu, ychwanegu a diwygiadau arfaethedig i'r Gofrestr.

Yn ystod ei gyflwyniad fe amlinellodd yr Aelod Arweiniol y broses adolygu ar gyfer y Gofrestr a rhoi diffiniad o'r termau 'Risg Hanfodol' a 'Risg Gweddilliol'. Mae'r Cofrestr Risg Gorfforaethol yn cynnwys y risgiau lefel uchel wedi'u hadnabod gan y Cyngor, a risgiau lefel is wedi'u cynnwys yn y Cofrestrau Risg Gwasanaeth. Gallai'r Gofrestr Risg Corfforaethol gael ei ddiweddarau ar unrhyw adeg ond yn cael ei adolygu'n ffurfiol bob chwe mis a Chofrestrau Risg Gwasanaeth yn cael eu hadolygu bob chwarter.

Gallai risgiau eu huwchraddio o'r Gofrestr Risg Gwasanaeth i'r Gofrestr Risg Corfforaethol os oes angen, ac i'r gwrthwyneb gallai Risgiau Corfforaethol gael eu hisraddio i Risgiau Gwasanaeth a'u cofnodi yn y Gofrestr Risg Gwasanaeth perthnasol.

Cynghorodd yr Aelod Arweiniol hefyd fod Atodiad 1 o'r adroddiad wedi cael ei ailfformatio yn ôl cais y Pwyllgor, i alluogi aelodau i adnabod yn hawdd pa 'risgiau' oedd yn newydd, wedi newid, wedi'u dileu neu heb fod yn ddarostyngedig i unrhyw newidiadau.

Dau 'risg' newydd oedd wedi tynnu sylw'r aelodau ac wedi'u hychwanegu i'r Gofrestr fel rhan o adolygiad diweddar oedd:

- Risg rhif 00036: y risg fod unrhyw effeithiau negyddol o adael yr Undeb Ewropeaidd ddim yn gallu cael eu lliniaru gan y Cyngor – mae'r risg wedi

cael ei ychwanegu fel effaith y Deyrnas Unedig (DU) yn gadael yr Undeb Ewropeaidd yn dal i fod yn aneglur. O ganlyniad i'r ansicrwydd presennol ynghylch yr achos penodol hwn, mae'r risgiau 'hanfodol' a 'gweddilliol' wedi cael eu dosbarthu fel B1 (coch).

- Risg rhif 00037: y risg lle nad oes gan y partneriaid adnoddau ar ei gyfer, blaenoriaethau ar y cyd neu ymrwymiad i gefnogi cyflenwi cynlluniau a blaenoriaethau a rennir. Mae gan y risg ddosbarthiad 'risg hanfodol' o B1 (coch) a dosbarthiad 'risg gweddilliol' o C2 (oren) o ganlyniad i'r ffaith bod byrddau ar y cyd yn cael eu mynychu gan reolwyr uwch a chynlluniau a blaenoriaethau ar y cyd (h.y. Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus) wedi cael eu datblygu i adlewyrchu blaenoriaethau sector cyhoeddus ehangach (Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych er enghraifft).

Wrth ymateb i gwestiynau aelodau, dyma'r Aelod Arweiniol a'r Swyddog Cynllunio a Pherfformiad:

- yn cynghori fod y ddau ddosbarthiad risg 'hanfodol' a gweddilliol' ar gyfer 00035 yn berthnasol i'r Fargen Twf Rhanbarthol yn cael dosbarthiad C1 (coch) ar hyn o bryd. Y rheswm dros hynny oedd bod y manylion yn dal i gael eu casglu ar gyfer y Fargen. Pan fydd mwy o fanylion penodol ar y Fargen ar gael byddai'r sgoriau risg yn cael eu hadolygu yn seiliedig ar y wybodaeth newydd;
- cadarnhau fod y gwaith paratoi y mae'r Cyngor wedi'i wneud mewn perthynas â'r effaith posib o gyflwyno'r Credyd Cynhwysol (CC) yn Sir Ddinbych ar breswylwyr a'r Cyngor (rhif risg 00016) wedi bod yn llwyddiannus iawn. Felly mae'r dosbarthiad 'Risg Hanfodol' B2 (coch) wedi lleihau i ddosbarthiad 'Risg Gweddilliol' o D3 (melyn). Mae'r Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi archwilio'r gwaith mewn manylder gynharach yn yr haf. Mae'r 'risg corfforaethol' hwn yn gallu o bosib lleihau ymhellach a'i drosglwyddo i'r Gofrestr Risg Gwasanaeth i gael ei reoli gan y Gwasanaeth yn y dyfodol;
- yn cynghori er bod 'risgiau' yn gallu newid o bosib ar unrhyw adeg a bod y Gofrestr yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu hyn ar y pryd, mae adolygiad ffurfiol o'r Gofrestr Risg Corfforaethol yn ei gyfanrwydd wedi'i gymryd gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol (TGC) bob chwe mis. Os oedd risg yn cael ei israddio i Risg Gwasanaeth neu'n cael ei dynnu'n gyfan gwbl nid oedd yn golygu na ellir ei ail-ychwanegu ar y Gofrestr Risg Corfforaethol nes ymlaen os byddai amgylchiadau yn golygu bod angen ei gynnwys;
- yn cynghori o ran risgiau 00033 a 00034 – y risg bod y gost o ofal yn mynd y tu hwnt i adnoddau'r Cyngor a'i bod yn amhosib cwrdd â'r galw am ofal arbenigol yn lleol – rhagor o arian wedi ei gadw i un ochr ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol, yn enwedig gwasanaethau arbenigol. Fodd bynnag mae'r galw am wasanaethau o'r fath yn anodd ei rhagweld ac yn gallu amrywio. Yn ogystal gall y Gwasanaethau lechyd ar adegau fod yn gyfrifol am ariannu gofal arbenigol. Gyda bwriad i liniaru yn erbyn y risgiau yn y maes penodol hwn mae arian wrth gefn ar gael i helpu i gefnogi'r Cyngor yn ystod cyfnodau lle mae galw mawr am wasanaethau arbenigol costus. Mae'n annhebygol

iawn bod unrhyw un o'r risgiau hyn am gael eu tynnu oddi ar y Gofrestr Risg Corfforaethol yn y dyfodol rhagweladwy;

- yn cynghori tra bod Trysorlys y DU wedi sicrhau cyllid penodol i gymryd lle Cyllid yr UE a fyddai'n cael ei golli, roedd y sicrwydd hwn wedi'i gyfyngu i amser ac nid oedd unrhyw fanylion ar gael eto ar y cyllid hirdymor. Roedd LIC hefyd wedi ymrwmo i gyfrannu pan fydd Cyllid yr UE yn cael ei golli, ond manylion ddim ar gael eto ar:
 - pa fath o gyllid fyddai ar gael;
 - p'un ai fyddai'n cymryd lle'r arian UE gydag arian cyfatebol; neu
 - pe bai ar gael ar draws Cymru neu'n gyfyngedig i ardaloedd daearyddol penodol.

Tra bod ymrwymiad wedi'i wneud bod cyllid wedi'i sicrhau yn barod yn cael ei anrhydeddu i sicrhau fod yr holl brosiectau yn cael eu cyflawni fel y cynlluniwyd yn wreiddiol, nid oedd unrhyw addewidion wedi'i gwneud hyd yma ynghylch cyllid a fyddai efallai ar gael i brosiectau'r dyfodol;

- yn hysbysu'r Pwyllgor fod darn o waith wedi'i ddechrau yn ystod y flwyddyn ar gasglu cofrestr o risgiau cymunedol h.y. newid hinsawdd, iaith Gymraeg ac ati. Mae'r wybodaeth a gafwyd o'r ymarfer hwn wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer yr Asesiad o Anghenion Lles ac am asesu unrhyw effaith posib ar gymunedau yn ymwneud â'r risgiau â nodwyd;
- yn cynghori bod rhif risg 00011 yn berthnasol i allu'r Cyngor i ymateb i ddigwyddiad 'unwaith ac am byth' h.y. yn debyg i drychineb Tŵr Grenfell. Mae'r sgôr 'risg gweddilliol' ar gyfer y risg yn E2 (melyn) oherwydd yr argaeledd o gymorth trwy Wasanaeth Cynllunio mewn Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWREP) a Fforwm Atgyfnerthu Gogledd Cymru (NWRP).

Yn dibynnu ar natur yr achos byddai'r sefydliadau hyn yn penodi 'prif sefydliad i gydlynu ymateb h.y. Yr Heddlu, Gwasanaeth Tân ac Achub ac ati. Mae'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu wedi gofyn am adroddiad ar ymateb asiantaethau i dân diweddar ar Fynydd Llantysilio; a
- cadarnhau mewn perthynas â risg rhif 00021 yn ymwneud â phartneriaethau effeithiol a rhyngwyneb rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor yn cael eu datblygu, tra bod y ddau sefydliad yn cydweithio byddai yna wastad heriau yn yr ardal hon.

Cyn dod â'r drafodaeth i derfyn fe ofynnodd yr aelodau bod adroddiadau yn y dyfodol yn cynnwys copi o'r 'Matrics Risg' er mwyn iddyn nhw allu dadansoddi'r penderfyniadau risgiau 'hanfodol' a 'gweddilliol' a'u bod yn cael copi o'r ddogfen 'Arweiniad i Reoli Risg'. Pwysleisiodd aelodau hefyd y pwysigrwydd o wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yn enwedig y rheiny ar gyfer staff mewn ysgolion, i fod yn gyfredol ac i gael eu diweddarau.

Wedi trafodaeth fanwl dyma'r Pwyllgor yn:

Penderfynu: - yn amodol ar y sylwadau uchod -

(i) nodi'r dileadau, yr ychwanegiadau a'r newidiadau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol (atodiad 1): ac

(ii) argymhell bod y Gofrestr Risg Gorfforaethol, ynghyd â sylwadau'r Pwyllgor Craffu Perfformiad yn cael eu cyflwyno i sesiwn Briffio'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 15 Hydref am drafodaeth.

6 DANGOSFWRDD YMDRECH CWSMERIAID

Yn absenoldeb yr Aelod Arweiniol dros Isadeiledd Cymunedol, fe gyflwynodd Pennaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata adroddiad y Rheolwr Gwella Gwasanaethau (wedi'i ddsbarthu'n flaenorol) wnaeth ddarparu golwg cyffredinol i'r Pwyllgor o ganlyniadau Ymdrech a Boddhad Cwsmeriaid.

Mae'r adroddiad yn cynnwys enghreifftiau gair-am-air ac awgrymiadau i wella gwasanaeth yn seiliedig ar yr adborth a dderbyniwyd. Fe atgoffodd y Pennaeth Gwasanaeth yr aelodau mai cynllun peilot oedd y Dangosfwrdd Ymdrech a Boddhad Cwsmeriaid yn y lle cyntaf, ond yn sgil ei lwyddiant cyflwynwyd system fel rhan gyfannol o Ganolfan Gwasanaethau i Gwsmeriaid y Cyngor.

Yn dilyn trafodaeth gydag Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor cyflawnwyd gwaith i ehangu'r gwasanaeth i gwsmeriaid eraill yn defnyddio gwasanaethau'r Cyngor, dyma wasanaethau gyda chyfran uchel o alwadau gan y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill - yn ystod y deuddeg mis hyd at Medi 2018 mae'r arolwg wedi cael ei ymestyn i bedwar gwasanaeth y cyngor a hyd at 13 o adrannau gwahanol.

Yn ôl y Rheolwr Gwella Gwasanaethau mae gan y system y gallu i lunio adroddiadau ar faint o ymdrech sydd ei angen ar ran y cwsmer i ateb eu hymholiad ynghyd â chyfradd boddhad cwsmeriaid ar ddiwedd y broses.

Dros gyfnod o 12 mis, roedd 3 thema amlwg yn sgil y dadansoddiad o ran pam nad oedd cwsmeriaid yn fodlon wedi'u cyswllt â'r Cyngor.

- y galwr yn cael ei drosglwyddo, neu'n cael rhif uniongyrchol i'w alw, a bod eu galwad ddim yn cael ei ateb;
- mae'r galwr wedi gadael neges ar y peiriant ateb ond neb wedi ei ffonio'n ôl; ac
- ar ôl i'r ymholiad gael ei nodi ar y system, yn gofyn i wasanaeth penodol gysylltu â hwy'n uniongyrchol, ni chafodd y cwsmer alwad yn ôl.

Fe arweiniodd hynny at y Prosiect Gwell Gwasanaeth Ffôn - gan gynyddu gallu cwsmeriaid 'i gyrraedd y lle iawn y tro cyntaf' wrth ddeialu prif rif ffôn y Cyngor ar 01824 706000.

Yn ymateb i gwestiynau'r aelodau dyma Bennaeth y Gwasanaeth a'r Rheolwr Gwella Gwasanaeth yn:

- cytuno i gynnwys ffigyrau gwirioneddol yn ogystal â chanrannau yn adroddiadau'r dyfodol;
- cadarnhau fod y nifer o arolygon ffôn symudol wedi'u llenwi a'u dychwelyd yn foddhaol ac yn uwch na'r ffigur dychwelyd ar gyfartaledd ar gyfer arolygon yn gyffredinol;
- cynghori fod y Cyngor ddim yn bwriadu cyflwyno App ffôn symudol/tailed ar gyfer dibenion cymryd rhan yn y math hwn o arolygon gan fod awdurdodau lleol sydd wedi eu cyflwyno bellach yn trio rhoi gorau iddyn nhw oherwydd gofynion cymhleth TGCh a phrosesau 'cefn swyddfa' sydd eu hangen i'w cefnogi. Mae gwefan Cyngor Sir Ddinbych yn cael ei defnyddio'n aml iawn gan breswylwyr a chwsmeriaid ar gyfer rhyngweithio â'r awdurdod a byddai

datblygu'r wefan ymhellach ar gyfer y diben hynny yn syniad llawer mwy effeithiol na chyflwyno App:

- cynghori bod y System Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid newydd a oedd ar fin cael ei gyflwyno ddiwedd Hydref neu ddechrau Tachwedd 2018 yn gweithio'n effeithiol gyda ffonau symudol ac yn gwella prosesau o'r dechrau i'w diwedd ac o ganlyniad yn cefnogi rhyngweithiad preswlydd/cwsmer gyda'r Cyngor;
- cadarnhau fod y data a dderbyniwyd o'r arolygon yn cael ei ddefnyddio i wella gwasanaethau gyda'r bwriad o sicrhau fod yr holl Wasanaethau yn cydymffurfio â Safon Corfforaethol ar gyfer darparu gwasanaeth - Dull Sir Ddinbych. Er hynny byddai yna wastad le am welliant yn fewnol yn y Cyngor ac yn allanol gyda rhanddeiliaid;
- cynghori bod y data a dderbyniwyd o'r arolygon wedi'i ddadansoddi gan weithgor o swyddogion o'r prif wasanaethau sy'n delio â chwsmeriaid. Cynrychiolwyr gwasanaeth yn gallu cael gafael ar ddata is i lawr ac adnabod pa gynghorydd unigol o fewn eu Gwasanaeth oedd wedi delio â'r ymholiad ac wedi mynd i'r afael ag unrhyw achosion neu broblemau a godwyd gyda'r bwriad o wella'r gwasanaeth a gynigir yn y dyfodol. Yn yr un modd gellir defnyddio'r adborth i adnabod arfer orau ac i gyfleu canmoliaeth a gwerthfawrogiad personol i gynghorwyr unigol;
- ymgymryd i ymchwilio pam fod ymholiadau rhai aelodau etholedig yn dal i fod wedi cofrestru fel 'pinc' ar y system olrhain ymholiadau aelodau (EMMA)
- cynghori er bod EMMA yn ffordd effeithiol o wirio cynnydd wrth ddelio ag ymholiadau, roedd yn bwysig fod swyddogion yn ymateb i ymholiadau trwy EMMA. Byddai'r system RhCC newydd yn cymryd lle EMMA ar gyfer ymholiadau aelodau;
- cadarnhau fod yr holl ymholiadau sydd heb eu hateb eto ar EMMA yn cael eu hadrodd i UDA y Cyngor yn wythnosol;
- mwy hyderus er mai'r nod yn yr hirdymor oedd cynyddu'r nifer o ryngweithiadau electronig gyda'r Cyngor oedd trwy'r wefan, nid oedd hynny'n golygu na fyddai preswylwyr ac ati yn gallu cysylltu â'r Cyngor dros y ffôn neu wyneb i wyneb os mai dyna yw eu dull o ddewis ar gyfer cyfathrebu. Trwy gynyddu cyfleoedd i breswylwyr ac eraill i gysylltu â'r Awdurdod yn electronig ar amser sydd yn gyfleus iddyn nhw byddai'r Cyngor yn gwneud defnydd mwy effeithiol o'i adnoddau h.y. rhyddhau cymhwysedd o fewn yr amgylcheddau ffôn a chysylltiad â chwsmeriaid i helpu'r rhai mwy diamddiffyn, a'r rheiny sydd angen cymorth i drafod â'r cyngor;
- cynghori bod Adran Gwasanaethau i Gwsmeriaid y Cyngor yn cydymffurfio â holl Safonau'r Iaith Gymraeg a oedd yn berthnasol i'w wasanaethau;
- cadarnhau bod Cymdeithas dros Reolwyr TG yn y sector gyhoeddus (SOCITIM) yn archwilio gwefan y Cyngor yn flynyddol ac o dan ei safonau mae wedi derbyn gradd sêr o 3 allan o 4 yn rheolaidd – Cyngor Dinas Caerdydd yw'r unig un yng Nghymru i gael gradd 4*. Rheolwyd a gweinyddwyd gwefan Cyngor Sir Ddinbych gan dîm mewnol o swyddogion a heb brynu i mewn, ac felly roedd ffocws y Tîm yn barhaol ar wefan y Cyngor a gwasanaethau ar safleoedd micro y Cyngor;
- cadarnhau bod preswylwyr, swyddogion a chynghorwyr yr un fath i gyd yn cael eu hadnabod fel cwsmeriaid wrth iddyn nhw wneud ymholiadau gyda'r

Adran Gwasanaethau i Gwsmeriaid. Bydd y system RhCC newydd yn cyfeirio'r holl ymholiadau yn uniongyrchol i'r gwasanaethau perthnasol;

- cydnabod bod preswylwyr yn aml yn mynd at aelodau etholedig gydag ymholiadau o ddydd i ddydd ac y byddai'n haws mynd i'r afael â nhw pe baent yn cysylltu â'r Cyngor yn uniongyrchol.

Mae gan yr Awdurdod bresenoldeb ar nifer o blatfformau cyfryngau cymdeithasol ac er na fyddai swyddogion yn chwilio am ymholiadau unigol wedi'u gadael ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol, byddai aelodau etholedig yn gallu cyfeirio preswylwyr i'r platfformau hynny ar gyfer gwybodaeth gyffredinol, rhifau ffôn neu ddiweddariadau ar achosion ac ati; a

- cynghorwyd fod trafodaethau yn cael eu cynnal ar hyn o bryd gyda TGCh a'r cwmni sydd yn gyfrifol am gyflenwi'r derfynellfa cofrestru ymwelwyr o'r enw 'Entrysign' mewn derbynfeydd yn swyddfeydd y Cyngor er mwyn sicrhau fod y wybodaeth sy'n cael ei arddangos ar y terfynellfeydd yn gwbl ddwyieithog.

Wedi trafodaeth manwl dyma'r Pwyllgor yn:

Penderfynu: -

(i) yn ddarostyngedig i'r arsylwadau uchod a'r gweithredoedd â nodwyd uchod yn cael eu datblygu i dderbyn yr adroddiad; ac

(ii) i ofyn bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor mewn deuddeg i bymtheg mis yn adolygu'r broses o weithredu'r System Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid newydd a'i berfformiad mewn darparu gwasanaethau yn canolbwyntio ar gwsmeriaid sy'n effeithiol ac effeithlon yn unol â manyleb y cynnyrch a disgwyliadau'r Cyngor

7 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu adroddiad (a ddisbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn am sylwadau'r Aelodau ar raglen waith y Pwyllgor a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar faterion perthnasol.

Roedd copi o "ffurflen gynnig Aelodau" wedi'i chynnwys yn Atodiad 2. Gofynnodd y Cydlynnydd Craffu i unrhyw gynigion gael eu cyflwyno iddi hi. Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet wedi'i gynnwys hefyd fel Atodiad 3, y tabl yn crynhoi penderfyniadau diweddar gan y Pwyllgor ac yn cynghori ar y cynnydd yn eu gweithredu wedi'i gynnwys fel Atodiad 4.

Cynghorodd y Cydlynnydd Craffu wrth y Pwyllgor bod y Cadeirydd yn mynychu'r Gynhadledd Diwygio Addysg yng Nghaerdydd gyda'r Pennaeth Addysg, ac felly roedd yr eitem ar Arholiadau Allanol Dros Dro ac Asesiadau Athrawon (wedi'i gynnwys i gael ei drafod yn y cyfarfod hwn) yn cael ei ohirio i'w drafod ym Mhwyllgor Craffu Perfformiad mis Tachwedd.

Hysbysodd y Cydlynnydd Craffu y Pwyllgor hefyd bod yr adroddiad Rheoli Gwastraff heb gael ei gyhoeddi eto gan Swyddfa Archwilio Cymru ac felly y byddai'r eitem hynny'n cael ei ohirio i'w drafod yn y cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer 31 Ionawr 2019.

Yn dilyn trafodaeth yn gynharach ar y RhCC, cytunwyd dros dro i drefnu adolygiad o'r system mewn 12 mis (Tachwedd 2019).

Atgoffodd y Cydlynnydd Craffu yr aelodau os oedd ganddynt unrhyw eitemau yr oeddent o'r farn oedd angen eu craffu yna dylent lenwi a dychwelyd y ffurflen gais (atodiad 2) a fyddai yna'n cael ei drafod gan y Grŵp Craffu Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion yn eu cyfarfod nesaf ym mis Hydref.

PENDERFYNWYD - yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith I'r Dyfodol.

8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Nid oedd unrhyw ddiweddariad i adrodd ar yr eitem hon.